# Cartrefi Caerffili

**Rhifyn 6**


## Rhoi bywyd newydd i Lle Rowan

Mae rhaglen wella gwerth £4.2 miliwn yn helpu i roi bywyd newydd i Lle Rowan yn y Rhymni. Mae'r rhaglen dwy flynedd yn cael ei chyflwyno gan Gartrefi Caerffili, mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf a Llywodraeth Cymru.

Bydd y tai sy'n rhan o'r rhaglen yn manteisio o waith mewnol ac allanol eang, ynghyd â gwelliannau amgylcheddol i wella golwg cyffredinol yr ardal.

Mae £1 miliwn ychwanegol hefyd yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru, trwy ei gronfa trechu tlodi - Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Yn ogystal ag ehangu'r project yn Lle Rowan, bydd yr arian hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ailwampio canolfan Hafan Deg ar Stryd Fawr Rhymni; i greu 'canolbwynt' i bobl leol allu cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau.







## Ar gael yn fuan

Bydd nifer o fflatiau dwy ystafell wely wedi eu hailwampio ar gael i'w rhentu yn fuan yn Lle Rowan. Os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn eu hadnabod ddiddordeb yn un o'r cartrefi hyn, neu os hoffech weld fflat arddangos wedi ei gwblhau, cysylltwch â ni ar 01443 873527 neu drwy anfon neges e-bost at sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk.

Gweithio mewn partneriaeth â

**yourccbchomes**
Dilynwch ni ar Twitter.

**yourcaerphillyhomes**
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Caerphilly Homes
Cartrefi Caerffili

# Maen nhw'n ôl!

## Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau

Mae'r gwaith wedi dechrau eto o chwilio am arwyr yn ein cymunedau sy'n rhoi eu hamser i drawsnewid bywydau tenantiaid.

Yn dilyn llwyddiant gwobrau'r llynedd, y tro hwn byddant yn fwy ac yn well - gyda mwy o gategorïau i gydnabod hyd yn oed mwy o bobl sy'n gwneud gwahaniaeth yn y fwrdeistref sirol.

Y categorïau eleni yw:

- Person Ifanc y Flwyddyn (o dan 21 oed ac yn byw mewn cartref cyngor)
- Gwobr Trawsnewid Bywydau:
  - Unigol
  - Grŵp
- Gwobr Trawsnewid Cymunedau:
  - Unigol
  - Grŵp
- Gwobr gweithiwr 'Y Filltir Ychwanegol'



I wneud cais am ffurflen enwebu, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Bywydau a Chymunedau ar 01443 864262 neu drwy anfon neges e-bost at watkik1@caerffili.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 10fed Gorffennaf - bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn seremoni wobrwyo yn ddiweddarach eleni.

# Cadwch lygaid allan am y 'bois mewn glas'



Mae gan dîm Cartrefi Caerffili wedd newydd! Mae'r hen wisg werdd wedi mynd, ac mae gwisg glas tywyll wedi cymryd ei lle. Mae'r wisg hefyd yn dweud 'Cartrefi Caerffili' o dan logo'r cyngor, fel y gallwch adnabod ein gweithlu yn hawdd.

Cofiwch y dylai pob aelod o staff gario cerdyn adnabod, ac ni fydd ots ganddynt os ydych yn gofyn i'w weld. Os ydych chi erioed yn amau hunaniaeth unrhyw un sydd yn galw, peidiwch â'u gadael i mewn i'ch cartref.

# Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi ehangiad cenedlaethol i Gredyd Cynhwysol

Yn ddiweddar, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi rhoi manylion am yr ehangiad cenedlaethol i Gredyd Cynhwysol ar draws ardaloedd Canolfannau Gwaith.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y DU mewn camau, a dechreuodd gael ei gyflwyno mewn Canolfannau Gwaith yn ardal Caerffili ar 4 Mai 2015.

Bydd y Credyd Cynhwysol yn ddechrau i hawliau newydd ar gyfer pobl sengl, a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys am Lwfans Ceisio Gwaith, gan gynnwys y rhai hynny gyda hawl am Fudd-dal Tai a Chredyd Treth Gwaith.

Am fwy o fanylion am roi'r Credyd Cynhwysol ar waith gallwch ymweld â gwefan yr Adran Pensiynau a Gwaith https://www.gov.uk/universal-credit neu ymweld â'ch Canolfan Byd Gwaith.

# Caerffili yn cael cymeradwyaeth uchel yn y gwobrau caffael cenedlaethol



Tenantiaid a Thîm Caffael y cyngor gyda'r wobr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei anrhydeddu ochr yn ochr â goreuon cymuned caffael y DU yn y National Government Opportunities (GO) Excellence in Public Procurement Awards 2015/16, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Midland ym Manceinion.

Derbyniodd Caerffili gymeradwyaeth uchel yn y categori Menter Ymgysylltu'r Flwyddyn i Fusnesau Bach/Trydydd Sector a noddwyd gan Supply.

Diolch i'r tenantiaid a'r Grŵp Trwsio a Gwella a fu o gymorth i wneud hyn yn bosibl ac am y nifer o oriau maent wedi eu rhoi i'r broses caffael yn ein rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

# Gofalu am eich anifeiliaid anwes

Mae manteision enfawr i fod yn berchen ar anifeiliaid anwes; mae hyd yn oed yn gallu gwella eich iechyd! Ond, mae bod yn berchen ar anifail anwes hefyd yn gyfrifoldeb mawr.

**Mae eich Cytundeb Tenantiaeth yn nodi y gallwch gadw un anifail domestig yn eich cartref heb fod angen caniatâd gennym, oni bai eich bod yn byw mewn fflat neu lety gwarchod.**

**Mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn gyntaf os hoffech gadw unrhyw un o'r canlynol yn eich cartref:**

- **Mwy nag 1 ci, cath neu anifail domestig arall**
- **Unrhyw gŵn, cathod neu anifeiliaid domestig eraill mewn fflatiau neu lety gwarchod lle mae ardaloedd sy'n cael eu defnyddio gan bawb yn yr adeilad.**
- **Colomennod**
- **Unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn anifeiliaid tŷ**

Er bod y rhan fwyaf o anifeiliaid anwes yn ymddwyn yn dda, cyfrifoldeb y perchnogion yw sicrhau nad yw'r anifail yn achosi niwsans i eraill. Gall anifeiliaid anwes achosi niwsans mewn nifer o ffyrdd, fel:

- Anifeiliaid sy'n crwydro neu ddim yn cael sylw
- Anifeiliaid yn baeddu ardaloedd cymunedol a gerddi perchnogion, a ddim yn cael ei lanhau'n syth
- Anifeiliaid yn baeddu yng ngerddi cymdogion
- Sŵn gormodol, e.e. ci yn cyfarth drwy'r amser
- Arogleuon annymunol gan anifeiliaid anwes
- Anifeiliaid ymosodol

# Oeddech chi'n gwybod?

Gall gwastraff anifeiliaid anwes gynnwys tocsinau a pharasitiaid a allai fod yn niweidiol iawn i fodau dynol, yn enwedig i fabanod, pobl hŷn a'r rhai hynny sy'n sâl.

Er enghraifft, mae tocsocariasis yn salwch y gellir ei ddal o wastraff ci. Mae symptomau tocsocariasis yn cynnwys ffitiau, anhawster anadlu, llygad boenus sy'n goch iawn, a golwg aneglur, fel arfer mewn un llygad. Os na chaiff ei drin, gall tocsocariasis achosi i unigolion golli golwg yn barhaol yn y llygad a effeithiwyd.



Cyn penderfynu cael anifail anwes gofynnwch y cwestiynau hyn i chi'ch hun:

- A yw'r anifail anwes yn addas i'ch ffordd o fyw a'ch amgylchiadau teulu?
- Oes gennych chi blant ifanc?
- Ydy eich cartref yn addas?
- A oes gennych fynediad rhwydd i fannau agored?
- Faint mae'n mynd i gostio? Allwch chi ei fforddio?
- Beth fydd yn digwydd i'r anifail anwes os ydych yn mynd i ffwrdd, e.e. ar wyliau?

**Cofiwch – eich cyfrifoldeb chi yw anifail anwes ar bob adeg** Mae hyn hefyd yn golygu pan fydd unrhyw un o'n staff neu gontractwyr yn ymweld â'ch cartref, e.e. i wneud atgyweiriadau neu arolygon, rhaid i chi sicrhau bod anifeiliaid anwes yn cael eu cadw allan o'r ffordd yn ddiogel. Mae hyn er mwyn amddiffyn diogelwch eich anifeiliaid anwes, yn ogystal â diogelwch ein staff a chontractwyr.

## Ydych chi dros 60 oed, neu oes gennych anabledd?

## Oes gennych swyddi bach sydd angen cael eu gwneud, ond na allwch eu gwneud eich hun?

## Gallai ein Cynllun Person Hylaw fod yn berffaith i chi!

### 50% O DDISGOWNT I RAI SY'N DEFNYDDIO'R GWASANAETH AM Y TRO CYNTAF

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi cyfradd cyflwyno o £10 yn unig yr awr i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf!

Mae Mrs Morgan, o Gefn Hengoed, yn denant sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, a dyma beth oedd ganddi i'w ddweud;

"Defnyddiais y cynllun oherwydd roeddwn eisiau gosod silff yn y tŷ, ac am fy mod yn byw ar fy mhen fy hun, doedd gen i neb i fy helpu. Roedd y dyn a ddaeth draw yn gwrtais iawn, gwnaeth yn siŵr fod y carpedi wedi eu gorchuddio cyn gwneud y gwaith ac fe daclusodd ar ei ôl. Rwy'n credu ei fod yn wasanaeth gwych; rwy'n symud tŷ yn fuan a byddaf yn sicr yn defnyddio'r cynllun i'm helpu eto."

Mae'r gwasanaeth yn werth arbennig am arian ac yn cael ei wneud gan aelod o'n tîm cynnal a chadw sy'n berchen eu hoffer eu hunain. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ar gyfer pethau fel:

- Gosod traciau neu bolion llenni
- Gosod llenni
- Trimio drysau mewnol
- Gosod silffoedd
- Gosod dodrefn pecyn fflat
- Gosod lluniau a drychau

Cofiwch, rydych yn talu fesul awr, nid fesul tasg, felly gall mwy nag un tasg gael ei gyflwni!



Am fwy o wybodaeth ar y Cynllun Person Hylaw cysylltwch â'ch swyddfa dai leol:

Swyddfa Dai Ardal Cwm Rhymni Uchaf
Ffon: (01443) 873535
Ffacs: (01443) 873533
E-bost: sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Ardal Cymoedd y Dwyrain
Ffon: (01495) 235229
Ffacs: (01495) 235036
E-bost: sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Cymdogaeth Parc Lansbury
Ffon: (02920) 860917
Ffacs: (02920) 881815
E-bost: sdcparclansbury@caerffili.gov.uk

Swyddfa Dai Cymdogaeth Graig-y-rhaca
Ffon: (02920) 853050
Ffacs: (02920) 868997
E-bost: sdcgraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

# Enillydd gwobr y raffl arolwg tai

Llongyfarchiadau i Pam Collins, o Ben-yr-heol a enillodd £50 am roi ei barn yn ein harolwg tai diweddar. Tynnwyd enw Pam ar hap o'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Cafodd yr ymarfer ymgynghori ei gynnal dros gyfnod o 12 wythnos, lle gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd roi eu barn ar ddrafft o bolisi dyraniadau cyffredinol.

Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymdeithasau i ddatblygu'r polisi. Y gobaith yw y bydd yn ei gwneud yn haws i bobl wneud cais am dai cymdeithasol ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar yr ymatebion yr ydym wedi eu derbyn yn ystod yr ymgynghoriad a byddwn yn cymryd y rhain i ystyriaeth cyn creu polisi terfynol.

Bydd asesiad effaith ar gydraddoldeb hefyd yn cael ei gynnal ar y polisi gyda'n partneriaid a Thai Pawb (sefydliad Cymraeg sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai). Bydd yr asesiad yn ein helpu i wneud yn siŵr nad yw'r polisi yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu agored i niwed.

Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r cyngor ar ôl yr haf, ac mae disgwyl i'r polisi newydd gael ei gyflwyno yn fuan yn 2016.



# Digwyddiad Dathlu Llwyddiant



Llongyfarchiadau i bawb a dderbyniodd wobrau yn nigwyddiad diweddar Dathlu Llwyddiant, Cydnabod Cyrhaeddiad.

Trefnwyd y digwyddiad gan dîm Cymunedau yn Gyntaf Cymoedd Canol y Dwyrain a chafodd ei gynnal yn Neuadd Goffa Trecelyn.

Roedd y digwyddiad hwn yn cydnabod y bobl hynny sydd wedi gweithio'n galed gyda'r tîm Cymunedau yn Gyntaf dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cael llwyddiannau.

# Trawsnewid tŷ cymunedol Treffilip

Yn ddiweddar, mae'r tŷ cymunedol yn Nhreffilip, Tredegar Newydd wedi cael ei drawsnewid diolch i nifer o roddion hael a gwaith caled gwirfoddolwyr.

Mae'r tŷ wedi bod yn galon i'r gymuned ers iddo agor yn 2007; cynhelir nifer o weithgareddau rheolaidd yn yr adeilad sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr gan gynnwys clybiau ciniawa, dosbarthiadau TG, sesiynau coginio a chlybiau ieuenctid. Ond mewn blynyddoedd diweddar, mae'r adeilad wedi mynd i edrych yn flinedig ac angen trawsnewidiad.

Llwyddodd y grŵp sy'n rhedeg y tŷ i sicrhau cefnogaeth nifer o asiantaethau a busnesau er mwyn helpu i wireddu gwelliannau i'r adeilad.




Y grŵp cymunedol yn un o'r ystafelloedd newydd wedi eu haddurno

Mae partner cyflenwol ffynhonnell unigol Cartrefi Caerffili, Robert Price Builders' Merchants wedi rhoi paent ac offer addurno i'r tŷ cymunedol ynghyd a sied bren newydd sbon.

Cafwyd cymorth ymarferol i drawsnewid y tŷ gan wirfoddolwyr o Wales and West Utilitites a Thermo Fisher; gan addurno bob ystafell y tu mewn i'r adeilad. Mae'r ardd hefyd yn blodeuo nawr diolch i roddion gan New Tredegar Building Supplies, a chafwyd help gan blant o Ysgol Gynradd Treffilip gyda'r plannu.

# Canmoliaeth a chwynion

Rydym bob amser yn gwneud ein gorau i gynnig gwasanaethau gwych sy'n bodloni eich anghenion fel tenantiaid. Os ydych yn teimlo ein bod yn gwneud gwaith da, neu'n teimlo bod aelod o staff wedi mynd filltir yn bellach, yna hoffwn glywed gennych! Gallwch wneud hyn drwy anfon llythyr neu e-bost yn uniongyrchol i'r unigolyn a roddodd y gwasanaeth i chi, fel eich swyddfa dai leol.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall y gall pethau weithiau fynd o'u lle. Os nad ydych yn hapus gyda'r gwahaniaeth rydych wedi ei dderbyn, dylech gysylltu â'r unigolyn sydd wedi darparu'r gwasanaeth, er enghraifft eich swyddfa dai leol.

Os ydych yn parhau i fod yn anhapus ac yn teimlo eich bod am wneud cwyn, yna cofiwch roi gwybod i ni. Mae cwynion yn bwysig iawn gan eu bod yn gallu ein helpu i weld pan mae diffygion yn y ffordd yr ydym yn gweithredu a beth allwn ei wneud i wella.

Gallwch wneud cwyn yn y ffyrdd canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ar ein gwefan ar www.caerffili.gov.uk/cwynion
- Anfon neges e-bost at cwynion@caerffili.gov.uk
- Ysgrifennu at y Swyddog Cwynion Corfforaethol: Mrs A Jones, Yr Adran Gyfreithiol, CBS Caerffili, Tŷ Penallta, Ystrad Mynach, CF82 7PG
- Ffonio ni ar 01443 864221
- Gallwch hefyd wneud cais am ffurflen gan yr unigolyn yr ydych mewn cyswllt ag o/hi yn barod. Dywedwch eich bod eisiau i ni ddelio â'ch cwyn yn ffurfiol.

# Adeiladu sy'n gweithio

Mae Gwilym Rhothwell yn un person ifanc ym mwrdeistref sirol Caerffili sydd wedi profi fod adeiladu wir yn gweithio!

Ym mis Hydref 2014, cymerodd Gwilym ran yng nghwrs 'Adeiladu sy'n gweithio' oedd yn cael ei gynnig gan Gymunedau yn Gyntaf Cwm Rhymni Uchaf. Ariannwyd y cwrs gan NIACE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion) ac roedd yn darparu sgiliau i gyfranogwyr ddilyn gyrfa mewn adeiladu, gan gynnwys y cyfle i gael cerdyn CSCS.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol a ddysgodd trwy'r cwrs hwn, ochr yn ochr â chymhwyster blaenorol mewn saernïaeth, llwyddodd Gwilym i sicrhau lleoliad gwaith gyda'n tîm Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS).

Trwy ei leoliad, gan gynllun Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru, mae Gwilym wedi gallu ennill profiad ymarferol mewn amrywiaeth o grefftau; gan gynnwys gosod lloriau, teilsio a saernïaeth.

Dywedodd Gwilym "Mwynheais y cwrs 'Adeiladu sy'n gweithio' yn fawr iawn, ac roedd staff Cymunedau yn Gyntaf yn help mawr iawn i mi wrth geisio ffeindio lleoliad gwaith wedi iddo orffen; maen nhw'n cysylltu â mi o hyd i weld sut mae'r lleoliad gwaith yn mynd. Rwyf wir yn mwynhau'r hyn rwyf yn ei wneud ar hyn o bryd, ac mae'n wych gallu gweld y canlyniad ar y diwedd."




## A wnaethoch fwynhau darllen y cylchlythyr hwn? Neu efallai fod gennych syniadau ar sut i'w wella?

Os felly, gallwch fod yn un o'n Hadolygwyr Cadair Freichiau. Rydych yn cael cyfle i weld y drafft, a gwneud sylwadau ar y cynnwys cyn i'r cylchlythyr fynd allan, a bydd eich enw'n cael ei roi mewn raffl i ennill tocyn siopa gwerth £25.

Am fwy o fanylion cysylltwch â ni ar 01495 235025 neu anfonwch neges e-bost at cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk